

**Ymateb Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i
Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y
'Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg'**

Rwyf yn croesawu'r cyfle i ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y 'Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg'. Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwyf yn ymchwilio i gwynion a wneir gan y cyhoedd sy'n teimlo eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder trwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth ar ran corff cyhoeddus o fewn fy awdurdodaeth. O ganlyniad, mae gennyf bersbectif unigryw ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, sy'n seiliedig ar farn y cyhoedd yng Nghymru a oedd yn anfodlon â'r gwasanaeth a gawsant.

Rwyf yn ymateb i ymgynghoriad ar sail tystiolaeth fy ymchwiliadau'n unig. Felly, yn hytrach nag ateb cwestiynau penodol yr ymgynghoriad byddaf yn cynnig sylwadau cyffredinol yn seiliedig ar brofiad OGCC, a all fod yn fuddiol pan fydd Llywodraeth Cymru'n ystyried y Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg

Mae gennyf y pŵer ar hyn o bryd i ymchwilio i gwynion am fethiannau yn narpariaeth cynlluniau dysgu ychwanegol gan awdurdodau addysg lleol (AALLau) Fodd bynnag, yn y bil drafft, mae cyfrifoldeb am y cynlluniau hyn yn gyfan gwbl yng ngofal ysgolion a sefydliadau addysg bellach nad ydynt ar hyn o bryd yn dod o fewn fy awdurdodaeth sy'n golygu nad wyf yn gallu ymchwilio i'r math hwn o gŵyn. Yn ddiweddar cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, a fyddai'n rhoi pwerau newydd i'r Ombwdsmon ac fel rhan o hyn rwyf yn gofyn bod ysgolion a sefydliadau addysg uwch yn dod o fewn fy awdurdodaeth, nid yn unig yn achos materion yn gysylltiedig ag anghenion dysgu ychwanegol, ond yn achos pob mater.

Rwyf yn croesawu'r syniad o gydweithio rhwng awdurdodau addysg lleol a'r ysgolion. Fodd bynnag, rhaid i'r dull hwn gael ei weithredu'n ymarferol ac nid gadael i'r sefydliadau benderfynu'n lleol a fydd yn cael ei weithredu ai peidio.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Rhagfyr 2015**
